

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi Cadwaladr gan  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Diben.....	2
2.	Trosolwg .....	2
3.	Themâu Allweddol.....	3
4.	Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig .....	6
5.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith .....	9
6.	Llywodraethu ac Atebolrwydd .....	10
7.	Ymgysylltu.....	12
8.	Gwaith Arolygu.....	13

## 1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben ni yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hybu gwelliannau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd
- Bod dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgyssylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth.

## 2. Trosolwg

Cynhaliodd AGIC 48 o arolygiadau ar gyfer lleoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- 1 arolygiad o ysbyty
- 4 arolygiad o bractisau cyffredinol
- 30 arolygiad o bractisau deintyddol
- 7 ymweliad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- 3 arolygiad o unedau iechyd meddwl
- 1 adolygiad o orchymyn triniaeth gymunedol
- 2 arolygiad anabledd dysgu.

Yn y sector annibynnol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae AGIC wedi cynnal arolygiadau o 22 o leoliadau, gan gynnwys:

- 2 arolygiad o hosbisau
- 11 ymweliad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- 7 arolygiad o unedau iechyd meddwl
- 2 arolygiad yn ymwneud â defnyddio periannau laser.

### 3. Themâu Allweddol

Yn 2015-16, gwnaeth AGIC amryw o waith yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o ganlyniad i'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn. Darperir crynodeb o'r rhain isod.

#### **Arolygiadau o Ysbytai'r GIG**

Yn 2015-16, gwnaethom ni gynnal arolygiad o dri ysbyty cymunedol, sef Ysbyty Penrhos Stanley, Ysbyty'r Wyddgrug ac Ysbyty Dinbych, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn gyffredinol, canfuom fod cleifion yn cael profiad da o ofal yn yr ysbytai y gwnaethom ymweld â nhw. Gwnaethom dderbyn sawl sylw cadarnhaol am y staff a'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Fodd bynnag, roedd cleifion yn awgrymu bod staff weithiau yn rhy brysur i ddarparu gofal unigoledig neu amserol.

Ac eithrio Ward Fali yn Ysbyty Penrhos Stanley, roedd y staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Yn ogystal, canfuom fod hyfforddiant staff a'r ddarpariaeth gofal i bobl â dementia wedi gwella ers ein Harolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol yn 2014-15.

Canfuom fod y cofnodion a gwblhawyd o ran gofal a thriniaeth cleifion yn dda yn gyffredinol, er bod anghysondebau mewn rhai meysydd. Er enghraifft, canfuom fod rhai bylchau yn y dogfennau asesu cwympiadau ac roedd amryw o ddyblygiadau ymhlith y nifer fawr o eitemau gwybodaeth a gedwir.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth gref gan y pum rheolwr ward a welwyd gennym.

Canfuom fod staff yn gallu cael cyfleoedd hyfforddiant, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y byddai'r staff i gyd yn gyfredol o ran hyfforddiant gorfodol ymhen y tri mis nesaf.

O ran Ward Fali yn Ysbyty Penrhos Stanley, canfuom rai problemau sylweddol:

- Yn ystod ein harolygiad, canfuom ddiffygion sylweddol ar Ward Fali, a gallai rhai ohonynt fod wedi peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.
- O ganlyniad, gwnaethom gyfeirio un claf at yr awdurdod lleol i gael ei ystyried o dan weithdrefnau Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.
- Roedd arferion staff ymhell islaw'r safonau mewn sawl maes. Yn benodol, roedd diffygion sylweddol mewn cadw cofnodion ac arferion meddyginiaeth.
- Gwnaeth y diffygion difrifol a ganfuom ar Ward Fali beri i AGIC gwestiynu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant y bwrdd iechyd ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth y ward hon yn gyffredinol. Yn dilyn hyn, rydym wedi cael ein hysbysu am y newidiadau staffio ac adnoddau ychwanegol a roddwyd ar waith er mwyn cefnogi a chynnal arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ar y ward hon.
- Cymerodd dair ymgais i AGIC gael sicrwydd digonol fod y bwrdd iechyd wedi rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau gwelliannau ar Ward Fali. Fodd bynnag, cafodd y mater hwn ei ddatrys yn foddhaol yn y diwedd.

### **Arolygiadau o Bractisau Deintyddol y GIG**

Yn ystod arolygiadau a gynhaliwyd yn y practisau deintyddol yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, amlygwyd y themâu canlynol:

- Dywedodd cleifion a/neu eu gofalwyr wrthym eu bod yn fodlon ar eu triniaeth ddeintyddol.
- Yn ystod un arolygiad, roedd gennym bryderon difrifol ynglŷn â'r cyfleusterau a'r systemau dadheintio. O ganlyniad, cafodd y mater ei uwchgwyfeirio at y bwrdd iechyd a hysbyswyd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Gwelsom rai anghysondebau o ran tystiolaeth bod deintyddion wedi dilyn hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol).<sup>1</sup>
- Gwelwyd yn ystod ein harolygiadau bod angen i rai practisau wneud gwelliannau i ddangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r gweithdrefnau dadheintio.

### **Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol**

Gwnaethom gynnal nifer o arolygiadau o bractisau cyffredinol yn 2015-16. Gwnaethom gydweithio ag aelodau o'r cyngor iechyd cymuned lleol wrth archwilio practisau cyffredinol. Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrth y cyngor iechyd cymuned eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan eu meddyg teulu a chan dîm y practis.

Un o'r problemau a fynegwyd yn gyson yn ystod ein harolygiadau oedd rhwystredigaeth rhai o'r cleifion wrth geisio trefnu apwyntiad gyda'u meddyg teulu.

Mewn rhai achosion, roedd angen i'r practisau cyffredinol wella safon y polisïau amddiffyn plant ac oedolion, a sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi dilyn hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant ar lefel oedd yn briodol i'w swyddogaeth.

Yn ystod un arolygiad o bractis a reolir gan y bwrdd iechyd, roedd y defnydd uchel o feddygon teulu locwm yn effeithio ar brofiad y cleifion ac ar y dilyniant o ran gofal. Ar ben hynny, gwelsom fod angen atgyfnerthu arweinyddiaeth a rheolaeth y practis hwn.

### **Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG**

Roedd y cleifion ar y cyfan yn ganmoliaethus iawn ynglŷn ag agweddau ac ymagwedd y staff, a gwelsom ymagwedd ofalgar a pherthynas dda rhwng y staff a'r cleifion.

Gwelsom nad oedd y lefelau staffio'n foddhaol yn ystod rhai o'n harolygiadau. Roedd rhai aelodau o staff wedi cronni amser dyledus sylweddol oherwydd prinderau staff a'r angen i weithio goramser.

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000

Yn ystod rhai arolygiadau, roeddem yn bryderus ynglŷn â faint o amser roedd y staff nyrsio'n ei dreulio'n cyflawni tasgau nad oeddent yn rhai nyrsio a oedd yn eu cymryd oddi wrth ofal cleifion a'r ward.

Gwnaethom nodi llawer o broblemau cynnal a chadw ac o ran sicrhau cyflwr ystadau ym mhob un o'n harolygiadau.

Gwelsom ddiffygion o ran hyfforddiant gorfodol y staff yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith, ac roedd angen rhoi rhywfaint o sylw i oruchwyliaeth a gwerthusiadau hefyd, yn enwedig i'r aelodau staff hynny nad oeddent wedi derbyn unrhyw hyfforddiant a goruchwyliaeth ers cryn amser.

Roeddem yn falch o nodi gwelliannau i'r system sy'n casglu ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol, a oedd yn cynnwys cofnod ar gyfer pan fydd disgwyl i staff dderbyn hyfforddiant penodol. Fodd bynnag, roedd gan rai meysydd gyfraddau cwblhau gwael, ac roeddent yn 0% ar adeg ein hymweliad.

Roedd gweinyddiaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl yn dda ar y cyfan.

Roedd pwysau sylweddol o ran darparu gwelyau i gleifion mewnol, ac roedd cyfradd llenwi gwelyau o 100% ar y wardiau yn ystod ein hymweliad. Roedd hyn yn golygu na allai cleifion presennol ddychwelyd ar ôl cyfnod penodol gartref. Roedd y sefyllfa hon yn amharu ar y cleifion ac yn creu anawsterau i'r staff.

#### **4. Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig**

Ym mis Mehefin 2015, rhoddwyd y bwrdd iechyd dan fesurau arbennig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn dilyn ei fethiant i wneud digon o welliannau yn erbyn pryderon hirsefydlog ynglŷn â llywodraethu, arweinyddiaeth a phroblemau eraill. Gwnaeth y gweinidog amlinellu nifer o feysydd lle'r oedd yn rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos gwelliant gweladwy, sef:

- Llywodraethu, arweinyddiaeth a goruchwyliaeth
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd
- Gwasanaethau meddygon teulu a gofal sylfaenol, gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau
- Ailgyssylltu â'r cyhoedd ac adennill hyder y cyhoedd.



Yn nhymor yr hydref 2015, cynhaliodd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad lefel uchel i asesu'r cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â'r meysydd hyn. Ar y cyfan, roedd yn amlwg bod llawer o waith ac ymdrech wedi'u gwneud i fynd i'r afael â'r heriau allweddol y gwnaethom ni ac adolygwyr allan eraill eu nodi'n flaenorol, yn ogystal â'r gweinidog pan roddodd y bwrdd iechyd dan fesurau arbennig. Bu datblygiadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd. Fodd bynnag, roedd rhai heriau sylfaenol yn parhau i fod.

Yn benodol:

- Roedd angen i'r bwrdd iechyd benodi prif weithredwr parhaol
- Roedd diffyg bwrdd cydlynus a thîm rheoli gweithredol yn parhau i fod yn broblem ac roedd angen gwneud mwy o waith o ran moesgarwch ac ymddygiad y bwrdd
- Roedd angen cymorth ar y bwrdd iechyd gyda rhai agweddau sylfaenol ar lywodraethu, arweinyddiaeth, cynllunio gwasanaethau ac amser cwblhau
- Roedd angen gwaith i ddiwygio strwythurau pwyllgorau o hyd
- Roedd angen cynllun tymor hir ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Bydd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad dilynol arall yn ystod 2016-17.

### **Gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad a gynhaliwyd gan AGIC ers 2007**

Yn 2015-16, gwnaeth AGIC gyhoeddi gwerthusiad o adolygiadau dynladdiad<sup>2</sup> a gynhaliodd ers 2007. Pwrpas y gwerthusiad oedd asesu effaith adroddiadau AGIC, a'r argymhellion a gyhoeddwyd ers 2007, ar wasanaethau sy'n cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Dyma'r themâu cyffredinol yr ymdriniwyd â nhw yn adroddiad gwerthuso AGIC:

- Cynllunio gofal, asesu, ac ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- Rheoli risg

---

<sup>2</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/160307homicidereviewreportcy.pdf>

- Diagnosis
- Cynllunio rhyddhad ac ôl-ofal
- Gwasanaethau integredig a chydgysylltiedig
- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth.

Gwelsom fod effaith ein hadroddiadau wedi bod yn amrywiol. Roedd rhai sefydliadau nad oeddent yn destun adolygiad uniongyrchol wedi sefydlu eu proses fewnol eu hunain i ystyried yr argymhellion o bob adroddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan rai sefydliadau broses neu ddull ffurfiol ar waith i sicrhau dysgu ehangach yn sgil ein hadroddiadau. Cafwyd rhwystrau o ran gweithredu'r argymhellion pan oedd angen cymryd camau gweithredu ar draws nifer o sefydliadau neu asiantaethau, gan gynnwys cyrff nad oeddent yn gyrrff iechyd. Fodd bynnag, dywedodd yr holl randdeiliaid a fu'n destun adolygiad bod ein hadolygiadau'n werthfawr iawn ac y dylid parhau â nhw.

Mae AGIC wedi gwneud newidiadau o ran y ffordd y mae'n cynnal yr adolygiadau hyn, yn benodol er mwyn hybu dysgu ymysg rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan uniongyrchol ym mhob adolygiad. Mae AGIC yn gofyn i bob bwrdd iechyd ystyried sut y byddant yn dysgu o ganlyniad i'r adolygiadau hyn, yn arbennig os nad oeddent yn rhan uniongyrchol o ymchwiliad a gynhaliwyd gan AGIC.

### **Adolygiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyhoeddi adolygiad<sup>3</sup> o'r trefniadau llywodraethu clinigol sydd ar waith gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a sut roedd y rhain yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer cleifion. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ganolbwyntio ar wasanaethau'r galon. Mae canfyddiadau allweddol ein hadolygiad fel a ganlyn:

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn mynd trwy gyfnod o drawsnewidiad, gan weithio tuag at roi rhagor o bwyslais ar ansawdd wrth gomisiynu gwasanaethau. Canfuom na fu'r ffocws hwn ar ansawdd yn bresennol bob amser yn y ffordd roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau.

---

<sup>3</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/151221clinicalgovernancereviewcy.pdf>

- Roedd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar sy'n rhoi adolygiad o ganlyniadau ac effaith ei waith i leihau amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau'r galon. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi diffygion yng ngweithdrefnau'r pwyllgor ar gyfer llywodraethu'r prosiect hwn – er enghraifft, ni roddwyd sicrwydd inni fod y broses ar gyfer dewis darparwyr yn Lloegr yn cael ei dogfennu'n ddigon cadarn.
- Gwelsom wendidau yn y ffordd roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cael ei weithredu. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth ynghylch pryderon cychwynnol ynglŷn ag amseroedd aros cardioleg wedi cael ei hadrodd i'r pwyllgor mewn modd amserol.
- Mae ein hadolygiad yn codi'r cwestiwn a all Cydbwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fod yn gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wir yn annibynnol pan fydd yn cynnwys darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.
- Mae canfyddiad allanol bod rôl a chyfrifoldeb Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynglŷn â rheoli gwasanaethau arbenigol yn aneglur.

Yn gyffredinol, mae ein hadolygiad wedi nodi bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ddechrau'r broses o gryfhau ei drefniadau llywodraethu clinigol.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddysgu o'r adolygiad hwn ac ystyried y camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd.

## 5. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

### Camau Dilynol

Gwnaethom gyflwyno adroddiad arolygu ynglŷn â'n canfyddiadau yn dilyn pob un o'n harolygiadau. Pan wnaethom ganfod bod angen gwneud gwelliannau, gwnaethom nodi bod angen i'r bwrdd iechyd neu'r practis ddarparu cynllun gwella ar ein cyfer ynglŷn â'r modd roeddent am wneud y gwelliannau. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol gan AGIC a gofynnwyd am fwy o wybodaeth a sicrwydd pan oedd eu hangen arnynt.

Gwnaethom ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn 2015 yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r cynnydd o ran gwneud y gwelliannau a nodwyd yn ein harolygiadau yn 2014-15. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod y bwrdd iechyd wedi cymryd y camau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r gwelliannau y gwnaethom eu nodi, a/neu

gwnaethant roi tystiolaeth i ddangos bod digon o gynnydd yn cael ei wneud mewn ymateb i'r rhan fwyaf o'r materion hyn.

Cafodd AGIC fwy o sicrwydd yn hyn o beth yn ystod ein rhaglen o arolygiadau ysbyty yn 2015-16. Er i ni ymweld ag adrannau clinigol gwahanol, gwnaethom ystyried yr argymhellion a wnaed y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn er mwyn pennu p'un a oedd y problemau hyn wedi'u cyfyngu i'r adrannau a arolygwyd yn 2014-15, neu os oeddent i'w gweld mewn adrannau eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Rhoddwyd rhywfaint o sicrwydd i ni fod y bwrdd iechyd yn defnyddio'n harolygiadau i wella ansawdd a diogelwch ei wasanaethau, gan sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu ac na chaiff y problemau eu hailadrodd rywle arall o fewn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, roedd angen atgyfnerthu'r agwedd hon.

### **Sicrwydd ar Unwaith**

Pan wnaethom ni nodi perygl yn ymwneud â diogelwch cleifion a bod angen cymryd camau gweithredu ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn 2015-16, gwnaethom gyflwyno 14 o lythyrau sicrwydd ar unwaith. Cyflwynwyd y rhain yn dilyn ein harolygiad o ysbyty'r GIG (1 llythyr), arolygiadau deintyddol (8 llythyr), arolygiadau o bractisau cyffredinol (1 llythyr), arolygiadau iechyd meddwl y GIG (3 llythyr), ac arolygiad thematig o wasanaethau anabledau dysgu (1 llythyr). Fel y nodwyd yn flaenorol, er ei bod wedi cymryd tair ymgais i AGIC gael sicrwydd digonol fod y bwrdd iechyd wedi rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau gwelliannau yn dilyn ein harolygiad o ysbyty'r GIG, rhoddwyd sicrwydd digonol yn y diwedd. Derbyniodd AGIC ymateb digonol i bob llythyr sicrwydd ar unwaith arall.

## **6. Llywodraethu ac Atebolrwydd**

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru wedi'u nodi yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o*

*ansawdd uchel yn GIG Cymru.*<sup>4</sup> Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu ddarparu ac yn eu comisiynu.

Mae AGIC wedi gweld nifer o bwyllgorau ansawdd a diogelwch yn cael eu cynnal yn y bwrdd iechyd. Mae arsylwi ar y pwyllgorau hyn wedi rhoi eglurder i AGIC o ran y dull strategol a ddefnyddir i asesu ansawdd a diogelwch o fewn y bwrdd iechyd. Yn ystod y pwyllgorau hyn, gwelsom adroddiadau AGIC yn cael eu harchwilio a'u holrhain gan y staff a'r aelodau annibynnol, ynghyd â'r argymhellion cysylltiedig.

Yn ogystal â'r gwaith y mae AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei wneud ar y cyd yn ymwneud â mesurau arbennig i archwilio agweddau ar lywodraethu ac arweinyddiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau hunanasesiad bob blwyddyn o'u sefyllfa o ran modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd Safonau Gofal Iechyd ar gyfer Cymru, gan ddarparu sgôr o'u haeddfedrwydd ar raddfa o 1-5.

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer 2014-15 yn cydnabod:

- Cyn cwblhau ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd, roedd angen 'ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa ehangach o ran y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol a'r achos dros newid'.
- Nododd y bwrdd iechyd ei fod yn 'anghytuno' â'r datganiad 'mae'r gwahanol wasanaethau a rhannau o'n gwaith sefydliad/busnes yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac mae pawb yn deall pwy sy'n gwneud beth a pham'.
- Fel y gwelwyd yn ystod ein harolygiadau ein hunain, gwnaeth y bwrdd iechyd gyfaddef fod cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol wedi bod yn wael.

---

<sup>4</sup>Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau, a'r hyn sydd angen bod ar waith er mwyn ceisio a rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf>

Yn ogystal, gorffennodd Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy nodi: "er gwaethaf ymateb cadarnhaol i'r mesurau arbennig, mae gan y bwrdd iechyd nifer o heriau sylfaenol o hyd ... mae capasiti, gallu a gwydnwch o ran arweinyddiaeth yn risgiau allweddol, ac mae'r diffyg strategaeth glinigol a chynllun tymor canolig integredig yn parhau i lesteirio gallu'r bwrdd iechyd i wneud newidiadau angenrheidiol yn gyflym."

## 7. Ymgysylltu

Mae AGIC wedi gweld nifer o gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch yn 2015-16.

Mae rheolwr perthynas a phrif weithredwr AGIC wedi cyfarfod â phrif weithredwr a chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod y flwyddyn. Hefyd, mae nifer o staff AGIC wedi bod yn trafod amrywiaeth o faterion gyda staff y bwrdd iechyd. Ar bob achlysur, mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i geisiadau am gyfarfodydd yn gadarnhaol ac yn brydlon. Bu nifer o achlysuron lle'r oedd AGIC wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd i fynd ar drywydd pryderon penodol ynglŷn â gwybodaeth leol ac ymdriniwyd â'r rhain yn briodol hefyd. Pan ofynnodd AGIC i'r bwrdd iechyd rannu ymchwiliadau, gwnaeth gydymffurfio â hynny.

Ar wahân i'r problemau a nodwyd yn flaenorol ynglŷn ag arolygiad AGIC o ysbytai cymunedol, ymatebwyd i ganfyddiadau arolygiadau a'r llythyrau sicrwydd ar unwaith yn gyflym ar y cyfan.

At hynny, roedd ymgysylltiad cadarnhaol â'r bwrdd iechyd o ran lleoli ei gleifion yn ystod y cyfnod cyn cau ysbyty iechyd meddwl annibynnol Plas Coch.

## 8. Gwaith Arolygu

### Gwasanaeth Iechyd Gwladol

#### Ysbyty

1. <a href="#">Ysbytai cymunedol Penrhos Stanley, Dinbych a'r Wyddgrug</a>	24 a 25 Tachwedd 2015
--	-----------------------

#### Practisau Cyffredinol

2. <a href="#">Meddygfa Plas Menai, Ffordd Penmaenmawr, Llanfairfechan, Conwy, LL33 0PE</a>	3 Medi 2015
3. <a href="#">Meddygfa Cambria</a>	28 Hydref 2015
4. <a href="#">Practis a Reolir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canolfan Gwasanaethau Iechyd, Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog</a>	11 Tachwedd 2015
5. <a href="#">Canolfan Feddygol Bae Cinnel, Y Sgwâr, Bae Cinnel, Conwy, LL18 5AU</a>	2 Chwefror 2016

#### Practisau Deintyddol

6. <a href="#">Practis Deintyddol Oasis, Y Fflint</a>	2 Ebrill 2015
7. <a href="#">Gofal Deintyddol Oasis, Ewlo</a>	9 Ebrill 2015
8. <a href="#">Practis Deintyddol Mervinian House, Dolgellau</a>	6 Mai 2015
9. <a href="#">Canolfan Ddeintyddol Whitecross, Llawr Daear, Tŷ Kingsway, Parc Technoleg Wrecsam, Wrecsam, LL13 7YP</a>	12 Mai 2015
10. <a href="#">Practis Deintyddol Fern Avenue, 1 Rhodfa Rhedyn, Prestatyn, LL19 9GN</a>	28 Mai 2015
11. <a href="#">Practis Deintyddol Cei Connah, 107A Stryd Fawr, Cei Connah, Sir y Fflint, CF5 4DF</a>	3 Mehefin 2015
12. <a href="#">Gofal Deintyddol Coppersun, 12 Stryd Grosvenor, Yr Wyddgrug, CH7 1EJ</a>	24 Mehefin 2015
13. <a href="#">Practis Deintyddol Dant y Coed, 1 a 2 Adeiladau Maelor, Heol Maelor, Coed-poeth, Wrecsam, LL11 3NG</a>	8 Gorffennaf 2015
14. <a href="#">Deintyddfa Abergele Groes Lwyd, Abergele, Conwy, LL22 7TA</a>	15 Gorffennaf 2015
15. <a href="#">Practis Deintyddol Rose Hill, Stryd Rose Hill, Conwy, LL32 8LD</a>	21 Gorffennaf 2015
16. <a href="#">My Dentist – Rhiwabon, Stryd Fawr, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6NH</a>	29 Gorffennaf 2015
17. <a href="#">Practis Deintyddol Rhos Road, 55 Rhos Road, Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn, LL28 4RY</a>	4 Awst 2015
18. <a href="#">Practis Deintyddol Ffordd Elan, 43 Ffordd Elan, Y Rhyl, Sir Dinbych, LL18 4HZ</a>	18 Awst 2015
19. <a href="#">Practis Deintyddol Ffordd Rhiwabon, 96 Ffordd Rhiwabon, Wrecsam, LL13 7PH</a>	18 Awst 2015
20. <a href="#">Canolfan Ddeintyddol Prestatyn, Siambrau Banc</a>	19 Awst 2015

<a href="#">HSBC, 37 Stryd Fawr, Prestatyn, Sir Ddinbych, LL19 9DN</a>	
21. <a href="#">Deintyddfa, Ffordd Bangor, BENLLECH, Ynys Môn, LL74 8QJ</a>	25 Awst 2015
22. <a href="#">iDental, Uned 2, Y Datblygiad Newydd, Stryd Charles, Wrecsam, LL13 8BT</a>	6 Hydref 2015
23. <a href="#">Practis Deintyddol Chapel Cottages, 5 Chapel Cottages, Stryd Fawr, Gresffordd, Wrecsam, LL12 8PS</a>	7 Hydref 2015
24. <a href="#">Elmhurst, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT</a>	6 Ionawr 2016
25. <a href="#">Practis Deintyddol Tywyn, Gwynedd</a>	12 Ionawr 2016
26. <a href="#">Oasis Dental Care Cyf, 23 Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BT</a>	19 Ionawr 2016
27. <a href="#">Practis Deintyddol The Coach House, 4A Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1BU</a>	20 Ionawr 2016
28. <a href="#">Gofal Deintyddol Rossett, Ffordd yr Orsaf, Yr Orsedd, Wrecsam, LL12 0ER</a>	21 Ionawr 2016
29. <a href="#">White Arcade Dental Practice Cyf, Gwynedd</a>	25 Ionawr 2016
30. <a href="#">Practis Deintyddol Bryn Siriol, Ffordd Gwernaffield, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1RA</a>	9 Chwefror 2016
31. <a href="#">Practis Deintyddol Bistre, 85 Ffordd yr Wyddgrug, BWCLE, Sir y Fflint, CH7 2JA</a>	10 Chwefror 2016
32. <a href="#">Practis Deintyddol Craig-y-don, Shirley, 28 Rhodfa Mostyn, LLANDUDNO, LL30 1YY</a>	11 Chwefror 2016
33. <a href="#">Practis Deintyddol West End, 15 Heol yr Wyddfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BT</a>	16 Chwefror 2016
34. <a href="#">Oasis Dental Care Cyf, Uned 1E, Ystad Ddiwydiannol Cibyn, Ffordd Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BG</a>	16 Mawrth 2016
35. <a href="#">Deintyddfa Mr Bellingham a Mr I G Hughes, Gogledd Ffordd Padeswood, BWCLE, Sir y Fflint, CH7 2JL</a>	31 Mawrth 2016

#### **Deddf Iechyd Meddwl**

36. <a href="#">Uned Heddfan (2 Ward)</a>	15 Ebrill 2015
38. <a href="#">Uned Ablett (2 Ward)</a>	6 Gorffennaf 2015
40. <a href="#">Uned Hergest (3 Ward)</a>	6 Ionawr 2016

#### **Uned Iechyd Meddwl**

43. <a href="#">Uned Heddfan</a>	15 Ebrill 2015
44. <a href="#">Uned Ablett</a>	6 Gorffennaf 2015
45. <a href="#">Uned Hergest</a>	6 Ionawr 2016



## Gofal Iechyd Annibynnol

### Hosbis(Oedolion)

1. <a href="#">Hosbis St Kentigerns</a>	13 Ionawr 2016
2. <a href="#">Hosbis Dewi Sant</a>	10 Mawrth 2016

### Deddf Iechyd Meddwl

3. <a href="#">Delfryn House (2 Ward)</a>	13 Ebrill 2015
5. Plas Coch (2 Ward)	8 Gorffennaf 2015
7. <a href="#">Delfryn Lodge (2 Ward)</a>	21 Medi 2015
9. <a href="#">Plas Coed Du (2 Ward)</a>	23 Medi 2015
11. Plas Coch (2 Ward)	14 Hydref 2015
13. <a href="#">Dewi Sant</a>	9 Mawrth 2016

### Uned Iechyd Meddwl

14. <a href="#">Delfryn House (2 Ward)</a>	13 Ebrill 2015
15. Plas Coch	8 Gorffennaf 2015
16. <a href="#">Plas Coed Du</a>	23 Medi 2015
17. <a href="#">Delfryn Lodge (2 Ward)</a>	21 Medi 2015
18. Plas Coch	14 Hydref 2015
19. Plas Coch	7 Mawrth 2016
20. <a href="#">Dewi Sant</a>	9 Mawrth 2016

### Laser

21. <a href="#">Utopia Salons Ltd</a>	8 Mawrth 2016
22. <a href="#">Cliniq Laser Gogledd Cymru</a>	8 Mawrth 2016